# CYLCHLYTHYR Y RHAGLEN DELWEDDU GENEDLAETHOL

GIG CYMRU NHS WALES | Rhaglen Delwedd Genedlaethol | National Imaging Programme

EBRILL 2026



## Croeso i Unfed ar bymtheg rhifyn Cylchlythyr y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol!

**Yn Cyflwyno Alexandra Simmonds**
Bydd rhai ohonoch eisoes yn ymwybodol bod Alexandra Simmonds wedi'u penodi'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol newydd y Rhaglen Ddiagnosteg Genedlaethol. Dywedon nhw: "Rwyf wrth fy modd yn ymuno â'r Rhaglen Ddiagnosteg ym Mherfformiad a Gwella GIG Cymru ac yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr angerddol sydd eisiau cyflawni trawsnewidiad ystyrlon ym maes delweddu. Rwy'n cydnabod y pwysau rydych chi'n eu hwynebu wrth gyrraedd targedau perfformiad diagnostig yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ac rwyf wedi ymrwymo i'ch cefnogi, wrth adeiladu ar y gwaith tîm a'r arloesi rhagorol sydd eisoes yn amlwg ar draws ein gwasanaethau.

Rwy'n arbennig o awyddus i gefnogi nodau'r Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol ar gyfer gweithlu cynaliadwy, gan gydnabod y rôl ganolog y maent yn ei chwarae o ran perfformiad diagnostig a gwydnwch ein gwasanaethau. Edrychaf ymlaen at wrando arnoch, dysgu gennych a gweithio gyda chi wrth i ni symud ymlaen i gryfhau llwybrau diagnostig i bobl Cymru."

Hoffai'r Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol ddiolch i Alexandra am eu cefnogaeth a dymuno pob lwc iddynt yn eu rôl newydd.

## Uchafbwyntiau

- Yn Cyflwyno Alexandra Simmonds
- Diweddariad ar y Gweithlu ac Addysg
- Diweddariad ynghylch profion uwchsain
- Diweddariad ynghylch Ansawdd
- Emily Jarmann Gadael Mamolaeth





# Diweddariad ar y Gweithlu ac Addysg

Chwaraeodd y Grŵp Trawsnewid y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWETG) rôl ganolog wrth hyrwyddo'r argymhellion a amlinellwyd yn y Strategaeth ar gyfer Datblygu Model Gweithlu Radioleg i Gymru a chefnogi amcanion Cynllun Gweithlu Diagnosteg AaGIC.

Am fod nodau ac amcanion y grŵp hwn wedi'u gwireddu a bod IWETG wedi cau, hoffem fachu ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr iawn i'r aelodau am eu cyfraniadau a'u hymroddiad. Wrth edrych ymlaen, bydd y Rhaglen yn rhoi mwy o bwyslais ar Grwpiau Gorchwyl a Gorffen pwrpasol i hyrwyddo amcanion allweddol, ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithredu â'n cydweithwyr ar draws GIG Cymru.



# Diweddariad ynghylch profion uwchsain



Mae Gill Lingwood (Rheolwr Rhaglen – y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol) wedi bod yn gweithio gyda safleoedd yn ddiweddar i ddilysu rhestrau aros uwchsain anobstetrig. Er mai'r nod cychwynnol oedd deall yn well y ffordd mae'r galw clinigol yn cael ei reoli, mae'r gwaith hwn hefyd wedi tynnu sylw at sawl maes sydd angen eu datblygu ymhellach, gan gynnwys rheoli data, eglurder wrth adrodd, mewnbynnu data archwiliadau cleifion, a phrosesau archebu apwyntiadau.

"Mae hwn wedi bod yn ddarn o waith gwerthfawr a chraff, a hoffwn ddiolch i'r adrannau dan sylw am eu cefnogaeth. Mae'n galonogol gweld nifer o gyfleoedd clir yn dod i'r amlwg, yn enwedig o ran data a chanllawiau clinigol, y gallwn nawr eu datblygu fel tîm i helpu i wella amseroedd aros i gleifion a'r data a ddefnyddiwn."

Mae Gill hefyd wedi datblygu gwaith ar adnodd podlediad newydd sy'n canolbwyntio ar reoli anaf straen ailadroddus (RSI) ymysg y rhai sy'n cynnal profion uwchsain. Datblygwyd y prosiect mewn ymateb i'r themâu a nodwyd mewn trafodaethau grwpiau ffocws a oedd yn rhan o ymchwil Gill. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â phryderon cynyddol ynghylch cyfraddau RSI sydd ar gynnydd ac absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â'r pwysau sydd ar y gweithlu sonograffeg.

Bydd y gyfres o bodlediadau yn cynnwys tair pennod a fydd yn ymdrin ag ystod o bynciau, gan gynnwys dulliau arwain, adroddiadau DATIX a RIDDOR, ac iechyd a llesiant personol. Unwaith y byddant wedi'u golygu, bydd y penodau ar gael ar ein gwefan.

# Diweddariad ynghylch Ansawdd

Mae James Triscott, Emily Jarmann, Paul Johnston, Helen Hughes ac aelodau Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru Gyfan wedi bod yn gweithio'n galed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i ddatblygu dogfennau hanfodol: y ddogfen Fframwaith Uwchsain a'r ddogfen SBAR ar gyfer Atgyfeirwyr Anfeddygol. Mae'r ddogfen Fframwaith Uwchsain yn darparu fframwaith llywodraethu ar gyfer gwasanaethau uwchsain ledled Cymru i'w ddefnyddio gan Grwpiau Llywodraethu Uwchsain y Byrddau Iechyd lleol. Mae'r SBAR ar gyfer Atgyfeirwyr Anfeddygol yn darparu argymhellion i alluogi datblygu polisi safonol i'w ddefnyddio ym mhob un o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan: <u>Adnoddau</u>.

**<u>Emily Jarmann Gadael Mamolaeth!</u>**

Mae ein cydweithiwr Emily Jarmann newydd gymryd cyfnod o absenoldeb mamolaeth ar ôl genedigaeth ei hail blentyn. Rydym wir wedi gwerthfawrogi ei hymroddiad fel Rheolwr Prosiectau a'i holl waith ar ansawdd a chynaliadwyedd, a bydd y tîm yn gweld ei heisiau hi'n fawr iawn tra bydd hi i ffwrdd. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu'n ôl wedi'i hadfywio a'i hysbrydoli pan fydd hi'n dychwelyd yn 2027. Pob lwc, Emily!

